

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Ymateb ac Adfer Cymru

Pan gyrhaeddodd Pandemig y Coronafeirws ym mis Mawrth 2020, aeth Sefydliad Cymunedol Cymru ati'n gyflym i sefydlu Cronfa Gwydnwch Coronafeirws Cymru er mwyn dosbarthu arian wedi'i godi'n lleol ac mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol. Ers hynny rydym ni wedi dosbarthu mwy na £2.8 miliwn mewn grantiau argyfwng i grwpiau'r trydydd sector ledled Cymru.

Wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio, rydym ni'n cydnabod fod y gofynion ariannol llawer o sefydliadau wedi newid. Rydym yn deall y bydd dal angen arian argyfwng am rai misoedd i ddod, a bod angen symud ymlaen ynghynt i ganfod y 'normal newydd'. Dylai grwpiau ystyried yr heriau o adfer a bod yn siŵr eu bod yn gallu dal i gefnogi eu buddiolwyr yn y ffordd iawn, a chofio hefyd y bydd eu hymddiriedolwyr, timoedd staff a gwirfoddolwyr angen cefnogaeth ychwanegol.

Bydd y gronfa newydd hon felly'n cynnwys y ddwy elfen:

YMATEB

Bydd arian yn dal ar gael ar gyfer sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth argyfwng i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig Coronafeirws, a allai gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- gefnogaeth, megis pecynnau gweithgaredd, i bobl fregus sy'n dal i hunan ynysu
- cydlynu'r ymateb cymunedol sydd ei angen yn ystod cyfnodau clo lleol
- costau ychwanegol / gwirfoddolwyr ar gyfer dosbarthu cyflenwadau argyfwng a bwyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
- cyflenwadau ar gyfer banciau bwyd a sefydliadau sy'n gweithio i atal newyn mewn cymunedau lleol.

ADFER

Bydd arian yn cael ei ganolbwyntio ar adfer o'r argyfwng yn sydyn a datblygu hunanddighedd a gwydnwch, gan ganolbwyntio ar atebion yn hytrach nag ar symptomau. Rhaid i'r gwaith sy'n cael ei gefnogi fod yn cael ei anelu at gryfhau cymunedau a / neu gryfhau'r sefydliadau sy'n darparu'r gefnogaeth hanfodol i gymunedau.

Er enghraifft:

- Darparu cyfleoedd i bobl gynyddu'u sgiliau i gael gwaith, cyrsiau hyfforddi, prosiectau gwirfoddoli i bobl ifanc, lleoliadau gwaith a phrentisiaethau ar gyfer pobl ifanc
- Prosiectau tyfu cynaliadwy, addysg bwyd a phrosiectau coginio
- Cefnogaeth i wella iechyd meddwl, lleihau anghyfartaledd iechyd a lleihau unigedd ymysg y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig
- Prosiectau sy'n ail-gydbwyso anghyfartaledd trwy gefnogaeth seilwaith, cynhwysedd digidol, hyfforddiant i wirfoddolwyr, cludiant cymunedol a datblygu trefniadol i grwpiau sy'n cynrychioli'r bobl fwyaf ymylol yn ein cymunedau. Prosiectau sy'n gallu darparu gwasanaethau cynghori a chefnogi i sicrhau fod pobl yn cael yr holl gefnogaeth y gallai fod ganddyn nhw hawl iddo.
- Gweithgareddau sy'n dod â phobl at ei gilydd mewn cymunedau bylchog a / neu wledig.
- Cefnogi timau i gryfhau sefydliadau sy'n gallu ail adeiladu gwydnwch cymunedol

Grantiau sydd Ar Gael

- Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael ar gyfer ceisiadau sy'n talu sylw i brosiectau o dan YMATEB
- Mae grantiau o hyd at £20,000 ar gyfer ceisiadau'n talu sylw i brosiectau o dan ADFER.

Mae'r grantiau ar gael i sefydliadau gydag incwm o lai na £1 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, er mwyn rhannu'r arian yn deg, bydd grwpiau gydag incwm o dan £500,000 yn cael eu blaenoriaethu. Bydd sefydliadau'n gallu ymgeisio am ddwy elfen y Gronfa ond NID ar gyfer yr un prosiect. Cysylltwch â ni os nad ydych chi'n sicr os yw eich sefydliad chi'n ffio'r meini prawf hyn.

Pwy a all ymgeisio?

Grwpiau cymunedol gyda chyfansoddiad, elusennau a mentrau cymdeithasol sy'n rhedeg prosiectau i gefnogi'r gymuned drwy dalu sylw i effeithiau'r pandemig Coronafeirws COVID-19 yng Nghymru.

Dim ond grwpiau a sefydliadau sy'n gallu dangos tystiolaeth eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn cadw at ganllawiau'r Llywodraeth ynghylch y feirws fydd yn derbyn grantiau.

Wrth i'r arian sydd ar gael leihau, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd amlwg ac sydd ar incwm isel.

Ar gyfer beth allwch chi ymgeisio?

- Costau prosiectau a chostau rhedeg sefydliadau, gan gynnwys costau staff, treuliau gwirfoddolwyr a chostau cludiant. Mae costau cyfalaf bychan hefyd yn gymwys os bydd yr eitemau cyfalaf â chysylltiad uniongyrchol â chefnogi'r grwpiau uchod.

Beth nad yw'r Gronfa'n gallu ei gefnogi:

- unigolion
- busnesau

Mae'r Llywodraeth yn darparu cefnogaeth ar gyfer unigolion a busnesau.

Sut i ymgeisio?

Dylech nodi pa elfen o'r gronfa hon sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect a chwblhau'r ffurflen gais berthnasol. Mae'r ffurflen gais YMATEB wedi'i hanelu at grwpiau sy'n dal i ymateb i anghenion brys a'r ffurflen gais ADFER yn anelu at grwpiau sy'n edrych ymlaen trwy ddarparu gweithgareddau i ddod â chymunedau at ei gilydd i sicrhau nerth a gwydnwch yn y dyfodol. Gall sefydliadau ymgeisio am ddwy elfen y Gronfa ond NID ar gyfer yr un prosiect. Mae ffurflenni cais at gael trwy ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn y llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi.
- Ni chefnogir prosiectau sy'n gyfrifoldeb y sector statudol e.e. unrhyw beth sy'n dod o fewn y cwricwlwm ysgolion.

Mae'r Gronfa hon ar gyfer Cymru ac mae'n cynnwys arian a godwyd trwy ein hapêl ni a'r apêl genedlaethol a lansiwyd gan yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol. Mae canran o'r arian yn dod o'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Cofiwch yn benodol am amodau a thelerau'r cynnig am grant ac i'r hysbysiad preifatrwydd newydd sy'n berthnasol i gyllid oddi wrth yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.